# Strategaeth y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2016-2021

**Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Ionawr 2017**

## Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)**

**Trevor Reaney CBE**

**Mike Redhouse**

**Y Fonesig Jane Roberts**

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Dan Collier**, Clerc y Bwrdd Dros Dro

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6330
E-bost: **Taliadau@cynulliad.cymru**

# Cynnwys

**Cyflwyniad....................................................................................1**

**Diben strategaeth y Bwrdd...............................................................3**

**Blaenoriaethau strategol ar gyfer 2016 i 2021 .......................................11**

**Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd Taliadau...................................................16**



# Cyflwyniad

Cyfarfu'r Bwrdd ym mis Medi 2016 i drafod ei strategaeth ar gyfer ei fandad dros gyfnod y Pumed Cynulliad, gan ganolbwyntio'n bendant ar ddarparu Penderfyniad Ariannol i'r Aelodau a fyddai'n addas ar gyfer y Chweched Cynulliad.


Ein blaenoriaeth gyntaf yw ystyried yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil Cynulliad newydd â nifer sylweddol o Aelodau newydd; Llywydd newydd; Comisiwn newydd i'r Cynulliad; newidiadau i gyfansoddiad gwleidyddol y Cynulliad; ac, wrth gwrs, ymateb i gymhlethdod ac ansicrwydd y newid cyfansoddiadol sydd o'n blaenau.

Yn y strategaeth hon, rydym yn rhoi pwyslais o'r newydd ar ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn gyson ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff i egluro syniadau'r Bwrdd a chael adborth gan y rhai yr effeithir yn fwyaf uniongyrchol arnynt. Byddwn hefyd yn datblygu perthnasau cynhyrchiol â rhanddeiliaid eraill, gan ddefnyddio technegau mwy arloesol o gasglu tystiolaeth. Bydd y Bwrdd yn cynnal ei ddull o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ac yn parhau i edrych ar enghreifftiau o arfer da ac arloesi rhyngwladol.

Mae penderfyniadau'r Bwrdd yn annibynnol a'r Bwrdd yn unig sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hyn. Wrth wneud y penderfyniadau, byddwn yn adeiladu ar waith y Bwrdd blaenorol ac yn manteisio ar brofiad ac arbenigedd aelodau newydd y Bwrdd.

Rydym yn cyhoeddi'r strategaeth hon yn awr i fod yn dryloyw am ein gwaith ac i'w gwneud yn haws cynnal deialog cynhyrchiol â'r rhai yr effeithir arnynt, ac sy'n cymryd diddordeb yn ein gwaith a chapasiti democratiaeth Cymru yn y dyfodol.





# Diben strategaeth y Bwrdd

# Pennod 1

## 1.1 Diben y Bwrdd a'i gyfrifoldebau craidd

1.1.1 Mae'r Bwrdd wedi datblygu'r strategaeth hon i'w alluogi i ymateb i anghenion newidiol y Cynulliad wrth ganolbwyntio'n bendant ar greu Penderfyniad Ariannol sy'n addas ar gyfer y Chweched Cynulliad. Fel aelodau'r Bwrdd, rydym wedi trafod ein dull o ran cyflawni ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf a beth y dylem ei flaenoriaethu er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'r Aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu rôl.

1.1.2 Wrth geisio tystiolaeth a gwneud penderfyniadau cadarn a theg, bydd y Bwrdd yn greadigol wrth ymdrin â phob elfen o waith. Ni fyddwn yn osgoi gwneud penderfyniadau anodd a byddwn yn adolygu egwyddorion y Penderfyniad os byddwn yn teimlo nad ydynt yn addas at y diben.

1.1.3 Swyddogaethau'r Bwrdd, fel y'u nodir yn adran 3 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Y Mesur" ), yw pennu'r lefel o dâl a'r system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ("yr Aelodau"), i'w galluogi i gyflawni eu rôl.

1.1.4 Yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol, mae'r Mesur yn nodi tri chyfrifoldeb allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cyflawni wrth lunio Penderfyniad, sef:

– darparu lefel o dâl i Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;

– darparu adnoddau digonol i Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau; a

– sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

1.1.5 Yn ei gyfanrwydd, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am roi ei amcanion ar waith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor ac am ystyried lles y Cynulliad, yn unol â'i amcanion statudol.

1.1.6 Diben y Bwrdd yw:

Mae'r Bwrdd Taliadau yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Cynulliad er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

# Pennod 2

## 2.1 Egwyddorion arweiniol ac amcanion y Bwrdd

2.1.1 Mae gwaith y Bwrdd wedi'i seilio ar gyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir:

– dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;

– mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;

– rhaid i'r system o gymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

2.1.2 Yn ogystal â'r rhain, ac wrth iddo fynd ati i ddatblygu Penderfyniad sy'n addas ar gyfer y Chweched Cynulliad, bydd y Bwrdd yn ystyried egwyddorion cyfle cyfartal a thegwch.

2.1.3 Mae'r amcanion strategol ar gyfer y tymor hwn fel a ganlyn:

– Ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a'u safbwyntiau;

– Sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn parhau'n addas i'r diben;

– Paratoi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol y Cynulliad a'r cyd-destun Cymreig ehangach, a rhoi gwybod amdano i'r holl ymgeiswyr posibl flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru; a

– Sicrhau bod y system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau yn cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr a bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol.

2.1.4 Yn y ddogfen hon, mae'r Bwrdd yn edrych yn ôl ar yr hyn y mae wedi'i ddysgu hyd yma, yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'i flaen, ac mae'n disgrifio'r camau y bydd yn eu cymryd o 2016 i 2017 er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Mae'r strategaeth yn ystyried y tymor hwy hefyd, gan ddisgrifio'r hyn y bydd yn ceisio ei gyflawni drwy gydol y Pumed Cynulliad er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd, erbyn 2021, ffydd bod defnydd yr Aelodau o arian trethdalwyr yn cael ei reoleiddio'n dda a bod gan yr Aelodau hawl priodol i gael adnoddau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau fel cynrychiolwyr etholedig.

2.1.5 Pan fydd cyfrannu at faterion sy'n cael effaith ehangach yn briodol ym marn y Bwrdd, fel ceisio cefnogi amrywiaeth eang o bobl i allu ymgeisio i fod yn Aelodau

Cynulliad, bydd y Bwrdd yn gwneud hynny, gan gofio ei gylch gwaith deddfwriaethol bob amser.

## 2.2 Profiadau’r Pedwerydd Cynulliad

2.2.1 Rhoddodd y Bwrdd blaenorol system daliadau ar waith a oedd yn targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r holl agweddau ar rôl yr Aelodau. Adolygodd y Penderfyniad i greu pecyn o gymorth ariannol i'r Aelodau a fyddai'n addas ar gyfer sefydliad â mwy o bwerau deddfwriaethol a threthiant.

2.2.2 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddarparu'r adnoddau i ddiwallu anghenion penodol yr Aelodau ac i ymateb i ofynion y Cynulliad wrth iddo ddatblygu. Argymhellodd adroddiad etifeddiaeth y Bwrdd blaenorol y dylai'r Bwrdd newydd gytuno ar rai egwyddorion o ran llywodraethiant a chanllawiau ar arfer ei swyddogaethau statudol mewn ffordd annibynnol, agored a chynhwysol, a fyddai'n galluogi i'r Bwrdd gael ei ddwyn i gyfrif.

2.2.3 Un rhan gynnar o waith y Bwrdd felly oedd ystyried ei lywodraethiant a'r egwyddorion sy'n ei ddiffinio. Mae'r Bwrdd wedi trafod pwysigrwydd targedu adnoddau i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau craidd, sef craffu ar bolisi a chyllid, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, deddfu a chynrychioli eu hetholwyr.

2.2.4 Mae'r Bwrdd yn ymwybodol y gallai ei benderfyniadau effeithio ar y setliad datganoli sy'n datblygu yng Nghymru ac ar faterion cyfansoddiadol yng Nghymru. Felly, bydd y Bwrdd yn ystyried sut y gall gyfrannu'n ehangach at ddatblygiad strategol y Cynulliad wrth i'r sefydliad aeddfedu ac wrth i'w ofynion, a disgwyliadau pobl Cymru, newid dros amser.

# Pennod 3

3.1.1 Drwy gasglu adborth yr Aelodau mewn sesiynau ymgynghori mynych, roedd modd i'r Bwrdd werthuso pa mor effeithiol oedd y systemau a gyflwynwyd ganddo. Bydd y Bwrdd newydd yn parhau i wneud hyn, ac yn cysylltu ac yn ymgynghori yn fwy, er mwyn sicrhau bod ei benderfyniadau yn dal i fod yn addas i'r diben.

3.1.2 Bydd y Bwrdd hefyd yn manteisio ar brofiadau a syniadau cyn-Aelodau, yn enwedig eu profiadau wrth roi'r gorau i gynrychioli eu hetholwyr yn y Cynulliad a dychwelyd i'w gyrfaoedd neu ddechrau ar yrfa newydd.

3.1.3 Mae'r Bwrdd wedi cynllunio a gweithredu cynllun pensiwn sy'n seiliedig ar ailbrisio enillion cyfartalog gyrfa (CARE) yn lle'r cynllun a oedd yn seiliedig ar gyflog terfynol a oedd ar waith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Cymeradwywyd y cynllun pensiynau yn ffurfiol gan Drysorlys Ei Mawrhydi ym mis Ebrill 2016 ac fe ddaeth i rym o 6 Mai 2016 ymlaen. Sefydlodd y Bwrdd Fwrdd Pensiynau hefyd i oruchwylio'r gwaith o weinyddu'r cynllun, gan sicrhau bod cadeirydd annibynnol yn cael ei benodi er mwyn darparu strwythur mwy cytbwys. Bydd y Bwrdd yn cydweithio'n agos â'r Bwrdd Pensiynau i sicrhau bod prisiadau'r cynllun yn cael eu hadolygu'n effeithiol a bod penderfyniadau yn agored ac yn dryloyw.

3.1.4 Mae gan aelodau'r Bwrdd Taliadau brofiad ac arbenigedd helaeth. Fel aelodau unigol o'r Bwrdd, byddwn yn defnyddio ein profiadau a'n harbenigedd i ganfod y prif faterion ac i wneud penderfyniadau ar y cyd ar sail y dystiolaeth sy'n dod i law. Byddwn hefyd yn gofyn am gyngor arbenigol pan fydd angen er mwyn helpu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar yr holl wybodaeth.

3.1.5 Wrth ddatblygu ein strategaeth, rydym wedi dyrannu meysydd gwaith penodol i aelodau unigol o'r Bwrdd ganolbwyntio arnynt a chydweithio'n agos â swyddogion i gyflwyno canfyddiadau i'r Bwrdd llawn.

# Pennod 4

## 4.1 Yr heriau sydd o'n blaenau – sganio'r gorwel

4.1.1 Mae strategaeth y Bwrdd yn ystyried ffactorau sbarduno a dylanwadau cyfansoddiadol a fydd yn llunio ei waith dros y blynyddoedd nesaf.

4.1.2 Mae datblygiadau cyfansoddiadol, fel mwy o bwerau cyllidol a chymhwysedd deddfwriaethol, yn golygu rhagor o gyfrifoldebau i'r Aelodau ac mae'n hollbwysig bod y Bwrdd yn ystyried y materion hyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch y lefel o gymorth ariannol sydd ar gael i'r Aelodau. Roedd penderfyniad y Bwrdd blaenorol ar gyflogau'r Aelodau yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn.

4.1.3 Mae Bil Cymru yn datganoli rhagor o bwerau a swyddogaethau i Weinidogion Cymru a bydd rhai ohonynt yn ymwneud â chylch gwaith y Bwrdd, yn enwedig materion fel newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a threfniadau etholaethol ar gyfer y Cynulliad. Mae Bil Cymru hefyd yn rhoi pwerau i'r Cynulliad wneud rhagor o newidiadau i'w drefniadau mewnol, fel cyfansoddiad y pwyllgorau, anghymhwyso Aelodau a chyfansoddiad Comisiwn y Cynulliad.

4.1.4 Byddai angen i'r Bwrdd ystyried a allai unrhyw newidiadau posibl effeithio ar y cymorth ariannol a roddir i'r Aelodau a'r ffordd orau o ymdrin â hynny.

4.1.5 Bydd ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi mwy o bwysau ar Aelodau ac mae'n debygol o gynyddu eu llwyth gwaith. Gallai'r galwadau i gynyddu capasiti'r Cynulliad ddod yn fwy perthnasol.

4.1.6 Byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr Aelodau yn arwain at oblygiadau ar gyfer y cymorth ariannol a ddarperir i'r Aelodau. Bydd y Bwrdd yn cadw llygad agos ar y datblygiad hwn ac yn sicrhau bod yr egwyddorion o ran gwerth am arian a defnyddio adnoddau'n ddoeth yn cael eu cymhwyso'n briodol.

4.1.7 Bydd y Bwrdd yn ystyried y newidiadau hyn ac yn ystyried a ddylid adolygu'r pecyn ariannol sydd ar gael i'r Aelodau yn unol â hynny. Bydd yr hyn sydd ei angen ar Aelodau er mwyn gweithio'n effeithiol yn ganolog i ystyriaethau'r Bwrdd a Chomisiwn y Cynulliad a dylid edrych ymhellach ar y cydbwysedd o ran adnoddau yn y cylchoedd gwaith perthnasol yn ystod y Pumed Cynulliad.

4.1.8 Bydd bygythiadau posibl o ran diogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'r Bwrdd o'r farn y dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion o fewn y cylch gwaith hwn fel mater o flaenoriaeth. Er y byddai'n anodd rhoi sicrwydd y bydd Aelodau a'u staff yn ddiogel ym mhob sefyllfa, bydd y Bwrdd yn cydweithio'n agos â

Chomisiwn y Cynulliad i sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu neilltuo ar gyfer gwelliannau i wella diogelwch Aelodau yn eu swyddfeydd etholaeth ac yn eu cartrefi.

4.1.9 Mae'r cyhoedd yn craffu yn fwy ar wariant arian trethdalwyr. Drwy herio setliadau gwariant cyhoeddus bydd modd craffu'n agosach fyth ar berfformiad a chyllidebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n bwysig bod y gyllideb ar gyfer y cymorth ariannol a roddir i'r Aelodau yn dryloyw a bod y Bwrdd yn atebol am ei benderfyniadau.





# Blaenoriaethau strategol ar gyfer 2016 i 2021

Mae'r adran hon yn egluro trywydd ein gwaith i barhau â'n mandad dros y blynyddoedd nesaf a pharatoi Penderfyniad sy'n addas i'r Chweched Cynulliad.

# Pennod 5

## 5.1 Blaenoriaethau Strategol

5.1.1 Mae'r Bwrdd yn bwriadu paratoi'r ffordd yn gynnar o ran ystyried y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. O gofio'r posibilrwydd y bydd nifer yr Aelodau Cynulliad yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf, mae'n amser priodol i ystyried sut orau y gall y Bwrdd hwyluso'r broses o annog amrywiaeth eang o ymgeiswyr galluog i ymgeisio mewn etholiadau. Blaenoriaeth bennaf y Bwrdd yw meithrin dealltwriaeth o'r cymhellion a'r rhwystrau i fod yn Aelod Cynulliad, gan gynnwys adolygiad o amrywiaeth yr Aelodau ers 1999. Wrth wneud penderfyniadau, bydd y Bwrdd yn dysgu o'r dulliau a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r byd ac yn ystyried y gwersi a ddysgwyd yn sgil gwaith y Bwrdd blaenorol a dechrau'r Bwrdd newydd.

5.1.2 Bydd y materion a ganlyn, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n hamcanion, yn cael eu hystyried ar hyd tymor y Bwrdd. Er bod y rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriaethau'r Bwrdd yn ystod y Pumed Cynulliad, bydd yn destun adolygiad rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ac yn addasu i'r anghenion busnes.

5.1.3 Bydd strategaeth y Bwrdd yn cael ei weithredu drwy raglen dreigl o waith.

### *Ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a'u safbwyntiau*

5.1.4 Bydd y Bwrdd yn mabwysiadu dulliau mwy arloesol o gasglu tystiolaeth i sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arno i wneud penderfyniadau da. Bydd y Bwrdd yn teilwra dulliau ymgynghori yn benodol i'r maes gwaith a'r gynulleidfa y mae'n dymuno eu targedu. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio ffyrdd o gasglu tystiolaeth sydd â phwrpas clir, o bosibl drwy gydweithio'n agos â grwpiau ffocws a phaneli dinasyddion. Bydd y Bwrdd hefyd yn cyfuno'r dulliau newydd â dulliau ymgynghori sydd wedi ennill eu plwyf, gan wahodd pobl i roi tystiolaeth i'r Bwrdd ar y materion dan sylw ac i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

5.1.5 Mae'r Bwrdd yn ystyriol o'r ffaith y bydd y gyfundrefn ariannol a'r canllawiau a roddir ar waith ganddo yn berthnasol iawn i waith Comisiynydd Safonau'r Cynulliad. Dylid canmol y Cynulliad am ei gofnod o ran materion yn ymwneud â safonau yn gyffredinol, nid dim ond materion ariannol. Er mwyn helpu i ddatblygu'r diwylliant cadarnhaol hwn, bydd y Bwrdd yn parhau i gydweithio â'r Comisiynydd o bryd i'w gilydd ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

5.1.6 Bydd y Bwrdd hefyd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o bwysigrwydd y Comisiwn o ran darparu cymorth a gwasanaethau i'r Aelodau a'r ffordd y mae swyddogaethau strategol y ddau gorff yn dibynnu ar ei gilydd. Mae'r Bwrdd yn cefnogi amcan Comisiwn y Cynulliad i reoli adnoddau yn effeithiol[1] ac mae'n deall ei rôl wrth adlewyrchu'r amcan hwn drwy sicrhau bod cyllideb Aelodau'r Cynulliad yn cael ei rheoli'n gywir a bod ei benderfyniadau'n seiliedig ar egwyddorion gwerth da am arian.

5.1.7 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu'r arfer o ymgysylltu ag Aelodau a'u Staff Cymorth drwy Grwpiau Cynrychiolwyr. Mae'r Cadeirydd yn rhoi gwerth ar y fforymau hyn a bydd yn parhau i ddefnyddio'r grwpiau'n effeithiol yn y Pumed Cynulliad i ystyried materion a phryderon sy'n effeithio ar yr Aelodau a'u staff ac i egluro penderfyniadau'r Bwrdd. Bydd aelodau'r Bwrdd hefyd yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd grŵp gyda'r Cadeirydd i wella eu dealltwriaeth o'r prif bryderon.

### *Sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn parhau'n addas i'r diben*

5.1.8 Bydd y gwaith a gyflawnir yn gyntaf gan y Bwrdd yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth ar sut y mae'r Penderfyniad newydd wedi gweithio'n ymarferol dros 12 mis cyntaf y Pumed Cynulliad.

5.1.9 Yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd blaenorol i adolygu darpariaethau cymorth newydd yn y Penderfyniad un flwyddyn ar ôl ei weithredu, byddwn yn adolygu sut y mae'r trefniadau newydd yn gweithio, a beth yw barn yr Aelodau arnynt. Yn sail i'r adolygiad hwn bydd ein hegwyddor i ystyried a fyddai model rhagnodol neu fodel o gymorth mwy annibynnol yn fwy priodol.

5.1.10 Dros y tymor hwy, bydd y Bwrdd yn ystyried sut y gallai newid cyfansoddiadol effeithio ar yr adnoddau sydd eu hangen ar Aelodau dros y pedair blynedd nesaf, gan gynnwys goblygiadau ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

5.1.11 Y Bwrdd blaenorol a bennodd y strwythur ar gyfercyflogau Staff Cymorth, Costau Swyddfa a Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer y Pumed Cynulliad. Bydd y meysydd hyn yn cael eu hadolygu yn ystod y Pumed Cynulliad er mwyn sicrhau bod y system gymorth yn adlewyrchu amodau'r farchnad. Er bod gan y Bwrdd ddyletswyddau penodol mewn perthynas â phenderfynu ynghylch cyfraniadau'r Aelodau i'r cynllun pensiwn, ni fydd angen adolygiad cyfan gwbl o gynllun pensiynau'r Aelodau y tymor hwn fel y bu'n rhaid i'r Bwrdd blaenorol ei wneud.

---

[1] ***Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2016-2021***

5.1.12 Yn y dyfodol agos, bydd y Bwrdd hefyd yn adolygu strwythur cyflog a gyrfa Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad. Yn ogystal ag ymdrin â gwaith achos unigol a godir gan etholwyr, mae'r Aelodau'n craffu ar bolisïau'r Llywodraeth, cyllid a deddfwriaeth. Mae angen iddynt gyrraedd safon uchel er mwyn gwneud hyn yn effeithiol ac mae angen ystod o gymorth medrus arnynt. Bydd y Bwrdd yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod gan yr Aelodau'r lefel briodol o gymorth i wneud eu gwaith yn effeithiol mewn sefydliad gwleidyddol sy'n aeddfedu.

5.1.13 Bydd y Bwrdd yn parhau i gynnal archwiliadau ac adolygiadau o bolisïau yn ôl y gofyn ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau newydd yn gweithio'n effeithiol.

### *Paratoi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol y Cynulliad a'r cyd-destun Cymreig ehangach, a rhoi gwybod amdano i'r holl ymgeiswyr posibl flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru*

5.1.14 Mae'r Bwrdd yn bwriadu paratoi'r ffordd yn gynnar o ran ystyried y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Ei flaenoriaeth gyntaf yw cael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau wrth ddod yn Aelod Cynulliad, gan gynnwys cynnal adolygiad o'r amrywiaeth ymhlith Aelodau'r gorffennol a'r rhai presennol; a'r rhwystrau a'r cymhellion ar gyfer ymgeiswyr posibl.

5.1.15 Ar ddiwedd ei dymor, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad, gydag adolygiad yn egluro methodoleg y Bwrdd, un flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru yn 2021.

5.1.16 Mae Comisiwn y Cynulliad wedi cytuno bod yr achos dros Gynulliad mwy o ran maint yn fwy grymus nag erioed. Yn amodol ar basio Bil Cymru sydd ar hyn o bryd gerbron Senedd y DU, bydd y pŵer i ddeddfu i gynyddu maint y sefydliad ac i ddiwygio'r system etholiadol yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad. Wrth gwrs, bydd unrhyw gynnydd yn nifer Aelodau'r Cynulliad yn effeithio ar ein cylch gwaith a'n hamcanion ar gyfer darparu Penderfyniad sy'n addas i'r Chweched Cynulliad. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiwn i fonitro'r datblygiadau hyn.

### *Sicrhau bod y system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau yn cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr a bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol*

5.1.17 Ar bob cam adolygu, bydd y Bwrdd yn ystyried a yw'r Penderfyniad yn cynrychioli gwerth da am arian y trethdalwyr, ac yn adlewyrchu'r egwyddor o gyfle cyfartal. Bydd hefyd yn ystyried ei berfformiad ei hun o bryd i'w gilydd yn erbyn ei egwyddorion llywodraethu.

5.1.18 Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau y caiff yr egwyddor o hunan-arfarnu ei brif ffrydio drwy ei waith drwy adolygu ei benderfyniadau yn rheolaidd a sicrhau eu bod yn bodloni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodir yn nogfen y strategaeth.

5.1.19 Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cynnal trosolwg strategol o'r gwaith o gyflwyno pob elfen o'i waith, bydd yn ystyried ei gynnydd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd ac ym mhob trydydd cyfarfod, bydd yn adolygu ei benderfyniadau yn ffurfiol ac yn ystyried ei lwybr strategol wrth symud ymlaen. Er mwyn llywio ei benderfyniadau'n effeithiol o ran y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad, bydd y Bwrdd yn cynnal gwaith ymchwil ac ymgysylltu arloesol yn gynnar yn y Cynulliad hwn.

# Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd Taliadau



## Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)



Mae'r Fonesig Dawn Primarolo, DBE, yn un o wleidyddion Plaid Lafur Prydain ac roedd yn Aelod Seneddol dros Dde Bryste rhwng 1987 a 2015, pan benderfynodd beidio â sefyll. Roedd yn Weinidog Gwladol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd rhwng mis Mehefin 2009 a mis Mai 2010, a hi oedd Dirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin o 2010 ymlaen. Cafodd ei phenodi'n Fonesig Gomander Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (DBE) am ei gwasanaeth gwleidyddol.

Ganed Dawn yn Llundain a chafodd ei magu yn Crawley, Gorllewin Sussex. Dychwelodd i Lundain ym 1973 i weithio, ac ymunodd â'r Blaid Lafur tra'i bod yn gweithio fel ysgrifennydd cyfreithiol mewn Canolfan Gyfreithiol yn nwyrain Llundain.

Symudodd i Fryste ym 1974 a ganed ei mab, Luke, ym 1978. Astudiodd ar gyfer gradd BA (Anrhydedd) mewn gwyddorau cymdeithasol yng ngholeg polytechnig Bryste fel myfyriwr aeddfed a rhiant sengl, ac yn dilyn hynny gwnaeth waith ymchwil PhD ar fenywod a thai.

Cafodd Dawn ei hethol am y tro cyntaf i Senedd y DU yn etholiad cyffredinol 1987 ac fe fu'n gwasanaethu yn y swyddi canlynol:

- 1992–1994: Llefarydd yr Wrthblaid ar Iechyd
- 1994–1997: Llefarydd yr Wrthblaid ar y Trysorlys
- 1997–1999: Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys
- 1999–2007: Tâl-feistr Cyffredinol
- 2007–2009: Y Gweinidog Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd
- 2009–2010: Y Gweinidog Gwladol dros Blant a Phobl Ifanc
- Cafodd Dawn ei hurddo'n Arglwyddes y Deyrnas Unedig am Oes ym mis Awst 2015.

## Trevor Reaney



Cafodd Trevor Reaney ei benodi'n Glerc a Phrif Weithredwr Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2008 tan iddo ymddeol ym mis Mehefin 2016. Dechreuodd ei yrfa yn y diwydiant lletygarwch, ac mae wedi gweithio mewn nifer o swyddi rheoli yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Cyn ymuno â'r Cynulliad, gwasanaethodd Trevor fel Prif Weithredwr Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon o fis Ionawr 2004 ymlaen. Cyn hynny, ef oedd Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Craigavon rhwng 1996 a 2003.

Mae gan Trevor gysylltiad â nifer o sefydliadau, fel aelod neu ddeiliad swydd:

- Cymrawd yn y Sefydliad Rheoli
- Ymddiriedolwr a Dirprwy Gadeirydd Buttle UK (elusen plant)
- Ymddiriedolwr Tree Aid (elusen datblygu rhyngwladol)

## Michael Redhouse



Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting ar hyn o bryd. Sefydlodd y cwmni yn 2002, gan helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion cyflogau a buddion. Graddiodd mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Ar hyn o bryd, mae Michael yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac ef yw Cadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Y Fonesig Jane Roberts



Mae gan y Fonesig Jane Roberts gefndir helaeth ym maes llywodraeth leol ac iechyd. Jane oedd Arweinydd Cyngor Camden rhwng 2000 a 2005, gan wasanaethu fel cynghorydd am 16 mlynedd. Hi oedd Cadeirydd Comisiwn y Cynghorwyr ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol rhwng 2007 a 2009 ac ar hyn o bryd mae'n gadeirydd y felin drafod, New Local Government Network.

Yn broffesiynol, mae Jane yn feddyg ac yn gweithio fel ymgynghorydd ysbyty ym maes Seiciatreg Plant a'r Glasoed. Roedd hi'n Gyfarwyddwr Meddygol ac yna'n Gyfarwyddwr Ansawdd a Pherfformiad yn Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Islington.

Mae gan Jane ystod eang o brofiad anweithredol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn bennaf yn ymwneud ag iechyd, addysg, polisi cyhoeddus a moeseg. Roedd yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Ofsted rhwng 2006 a 2011 ac yn Gadeirydd Parenting UK rhwng 2006 a 2012. Mae hi'n un o ymddiriedolwyr y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus ac yn aelod o gorff llywodraethu Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae Jane wedi ysgrifennu nifer o bapurau academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid ym maes pediatreg a seiciatreg, yn ogystal â chyd-olygu'r llyfr "The Politics of Attachment" (1996). Mae'n Gymrawd Gwadd yn y Brifysgol Agored ac mae wedi cyhoeddi gwaith yn 2015 a oedd yn deillio o'i gwaith ymchwil ar y newid ar ôl colli swydd wleidyddol.